***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1 (Cy. 1)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 2) 2018

*Gwnaed - - - - 3 Ionawr 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 2) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2018

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 1 Chwefror 2018—

(a) Rhan 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff); a

(b) adran 94 (dehongli) at ddiben Rhan 5.

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

3 Ionawr 2018

(**1**) 2017 dccc 2.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ar 1 Chwefror 2018 ddarpariaethau o'r Ddeddf sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 3 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 119 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |

*Gweler* hefyd adran 126(1) o'r Ddeddf am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2017 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).